Cofnodion cyfarfod rhif 93
Pwyllgor Cynghori Cymru
Cyfarfod hybrid ar 12 Mehefin 2024

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Aled Eirug | Cadeirydd (dros dro) |
| Robert Andrews | Aelod |
| Angharad Evans | Aelod |
| Karen Lewis Aelod | |
| Geraint Strello | Aelod |
| Amanda Rees | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Clive Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Jonathan Rose | Cyfarwyddwr, Ofcom Gogledd Iwerddon (Cyfarwyddwr Cymru dros dro) |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Rhys Llewelyn | Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg, Ofcom Cymru |
| Liz Nash | Gweinyddwr, Ofcom Cymru |
| Rachel Burr | Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu |

Cydweithwyr eraill o Ofcom

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| **1. Cyflwyniad**<br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 93 Pwyllgor Cynghori Cymru. Cafwyd ymddiheuriadau gan Ruth McElroy.<br>Eglurodd Aled Eirug, yn sgil ymddiswyddiad Rob Andrew fel Cadeirydd oherwydd ei fod yn dechrau mewn swydd newydd amser llawn, roedd Ofcom wedi gofyn iddo weithredu fel Cadeirydd dros dro hyd nes y penodir rhywun newydd i'r swydd. Bydd RA yn dal i fod yn Aelod o'r Pwyllgor. |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br>Geraint Strello – un o randdeiliaid BT ac aelod o gynllun pensiwn BT.<br>Amanda Rees – Aelod o'r Bwrdd yn Asiantaeth Datblygu Cwmpas |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror a materion yn codi**<br>Ar ôl gwneud un newid bach CYMERADWYWYD y cofnodion. |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| 4. **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd dri aelod newydd sef Amanda Rees, Karen Lewis a Geraint Strello a diolchodd i'r Cadeirydd blaenorol am ei wasanaeth.<br><br>Rhoddodd ddiweddariad byr ar lafar. Un eitem oedd eto i'w thrafod oedd y posibilrwydd o gynnal cyfarfod Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC) ym mis Hydref y tu allan i Gaerdydd. Trafododd yr aelodau'r awgrym o fynd i Ogledd Cymru. |
| **5. Diweddariad: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom**<br><br>Rhoddodd Clive Jones ddiweddariad ar weithgareddau'r Bwrdd. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys y canlynol:<br><br>1) yr Etholiad Cyffredinol a threfniadau purdah Ofcom<br><br>2) Sefydlu'r Bil Cyfryngau<br><br>3) Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus<br><br>4) cwotâu cynhyrchu Channel 4<br><br>5) dyfodol Swyddfa'r Post<br><br>Rhoddodd Jonathan Rose wybodaeth bellach am ddau gam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf, sef:<br><br>• Diweddariad ar gwynion GB News - roedd Bwletinau Darlledu dilynol wedi nodi canlyniad yr ymchwiliadau hyn.<br>• Eitem 10 - ymgynghoriad ynghylch cadernid rhwydweithiau - nid oedd angen yr estyniad y gofynnwyd amdano. |
| **6. Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Anthony Skynkaruk a'i dîm a oedd wedi dosbarthu adroddiad diweddar cyn y cyfarfod. Tynnodd sylw at gwpwl o eitemau o'r adroddiad, sef:<br><br>• Mae digwyddiadau wedi disodli'r cynllun cychwynnol a amlinellwyd ym mis Chwefror ac mae amserlenni wedi newid. Bydd y tîm yn mynd ati i ddiwygio'r amserlenni yn ystod yr wythnosau nesaf gyda'r nod o gyflwyno Cynllun diwygiedig ym mis Medi.<br>• Crybwyllodd Aelodau bod y meini prawf sy'n llywodraethu'r meini prawf ar gyfer diwygiadau rhestredig yn parhau i fod yn destun pryder i'r Pwyllgor yn enwedig gan fod y Ddeddf bellach yn ehangu'r drefn i gynnwys amrywiaeth o ddarparwyr newydd, gan gynnwys gwasanaethau ffrydio.<br>• Cafwyd trafodaeth ynghylch S4C a'r ddarpariaeth o Clic ar rai dyfeisiau. Eglurodd y tîm nad lle Ofcom yw rhoi unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar S4C ar waith.<br><br>Cytunodd y tîm i ddod i gyfarfod o'r PCC yn y dyfodol i roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau ar y datblygiadau yn sgil yr Etholiad Cyffredinol. |
| **7. Adroddiad Blynyddol y BBC**<br><br>Roedd y tîm eisoes wedi dosbarthu papur yn rhoi trosolwg o ddull gweithredu arfaethedig Ofcom yng nghyswllt adroddiad eleni, yn arbennig yr adrannau oedd yn berthnasol i'r gwledydd a'r rhanbarthau ac i allbwn y BBC yng Nghymru yn 2023/4. Nododd y tîm y byddai'r dudalen ffeithlun yn cael ei chwblhau ar ôl i ddata ddod i law dros yr haf. Mewn |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| ymateb i gwestiwn, eglurodd y tîm bod data'n cael ei gasglu drwy grwpiau ffocws manwl (gan gynnwys cynulleidfaoedd ifanc); y traciwr Blynyddol ac ymchwil ansoddol gan y BBC gan ddefnyddio cwestiynau penodol i adroddiadau cyfryngau lleol ynghylch y BBC ar draws pob gwlad a demograffeg.<br><br>Bydd y BBC yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ym mis Gorffennaf ac mae Ofcom wedyn yn bwriadu cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol ar y BBC ym mis Tachwedd ochr yn ochr â'r Adolygiad o Gyfryngau Lleol. |
| **8. Adroddiad Cyfryngau'r Genedl Cymru**<br><br>Roedd papur diweddaru wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw a chymerwyd bod pawb wedi'i ddarllen. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:<br><br>Roedd Traciwr PSM wedi gofyn cwestiwn newydd eleni - roedd yn gofyn i'r rhai oedd yn ymateb iddo ar-lein sgorio'r tair nodwedd bwysicaf i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) eu darparu ar gyfer cymdeithas yn gyffredinol.<br><br>• Bydd data ar gael gafael ar newyddion yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad eleni a bydd yn canolbwyntio mwy ar raglenni sy'n cael eu cynhyrchu ym mhob gwlad.<br>• Gwnaeth aelod y sylw bod maint y sampl yng Nghymru ar gyfer y Traciwr PSM yn ymddangos yn fach iawn a holodd a oedd modd cynyddu hwn. Nododd y tîm bod hwn yn cyd-fynd yn fras â'r llynedd ond eu bod yn fodlon ystyried sylwadau yn enwedig gan eu bod yn tendro ar gyfer darparwr traciwr newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi ar 31 Gorffennaf. |
| **9. Strategaeth Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau**<br><br>Rhoddodd y tîm Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau gyflwyniad manwl ar yr 'Ymgynghoriad ar y Strategaeth Tair Blynedd ar gyfer Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau' sy'n dod i ben ar 24 Mehefin. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar dri maes - Tystiolaeth Ymchwil a gwerthuso; ymgysylltu â llwyfannau a phobl a phartneriaethau ac roeddent wedi ymhelaethu ar y rhain.<br><br>Dywedodd yr aelodau eu bod yn falch iawn bod y tîm yn cynnal cyfres o sioeau teithiol o amgylch y DU gyda'r un yng Nghaerdydd yn cael ei chynnal ddydd Gwener 14 Mehefin.<br><br>Ar ôl trafod a sylw blaenorol gan yr Aelod ar ran Cymru ar y Bwrdd Cynnwys, cadarnhaodd y tîm y bydd trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cynllun ymgysylltu a chyfathrebiadau posibl a'u bod yn gobeithio trafod hyn yn fwy manwl yn y digwyddiad ddydd Gwener. Teimlwyd y gellid cyfuno hyn ag ymgyrch Diogelwch Ar-lein. |
| **10. Polisi Cyhoeddus**<br><br>Roedd papur diweddaru wedi'i ddosbarthu ymlaen llaw. Mae Kate Davies bellach wedi dychwelyd ar ôl bod ar absenoldeb mamolaeth. Diolchodd y Cadeirydd i Kate Biggs am ei holl gymorth dros y misoedd diwethaf.<br><br>Mae'r tîm wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar y cyfnod cyn yr Etholiad Cyffredinol. Mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd KB fod Ofcom yn parhau i ymgysylltu â gweinidogion yr wrthblaid a swyddogion y llywodraeth. Bydd y tîm yn monitro cyhoeddiadau, areithiau a maniffestos yn y cyfnod cyn yr etholiad, yn parhau i weithio gyda swyddogion fel |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| sy’n briodol ac, unwaith y bydd Llywodraeth newydd yn ei lle, bydd yn mynd ati’n gyflym i ddeall unrhyw oblygiadau i feysydd gwaith Ofcom.<br><br>Dywedodd aelod bod yr adroddiad PPT yn nodi bod y set gyntaf o rwymedigaethau trwydded y Rhwydwaith Gwledig a Rennir sy’n ymwneud â Mannau Di-gyswllt Rhannol i fod i ddod ym mis Mehefin 2024 a gofynnodd am ragor o wybodaeth. Dywedodd KB ei bod yn rhy gynnar i wneud sylw ac y bydd y tîm yn darparu diweddariad arall yng nghyfarfod nesaf y PCC ym mis Hydref.<br><br>Cafwyd trafodaeth ynghylch a ddylai’r Pwyllgor gynhyrchu crynodeb blynyddol o’i weithgareddau a’i gyngor. Dywedodd JR bod Pwyllgor yr Alban wedi cynhyrchu adroddiad o’r fath ac wedi’i rannu ag Ofcom. Roedd Pwyllgor Lloegr a Phwyllgor Gogledd Iwerddon yn ystyried a ddylent hwythau wneud yr un peth. |
| **11. Adroddiad: Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br><br>Roedd adroddiad diweddaru wedi cael ei ddosbarthu ymlaen llaw gan dîm Ofcom Cymru a thynnodd Meleri Evans sylw at bynciau allweddol a oedd yn cynnwys y canlynol:<br><br>• Cyfarfod diweddar â swyddfa'r Comisiynydd Plant i drafod diogelwch Ar-lein ac ymgynghoriad Amddiffyn Plant Ofcom.<br>• Cyfnod yr etholiad - manylion maniffestos pleidiau sy’n cael eu rhyddhau gan gynnwys bwriad Plaid Cymru i greu cwmni seilwaith band eang ar gyfer ardaloedd gwledig. Holodd aelodau sut byddai hyn yn gweithio gyda chytundeb Rhwydwaith Gwledig a Rennir presennol llywodraeth y DU. Dywedodd EW bod y contract cyfredol yn dod i ben yn 2025 a bod trafodaethau â Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddynt.<br>• Y datblygiad diweddaraf gyda Chomisiynydd y Gymraeg o ran Safonau 33 a 54 sy’n ymwneud â chynnwys cyfryngau cymdeithasol. Roedd yr aelodau’n falch o nodi bod y Comisiynydd wedi cymeradwyo cais i ddiwygio safonau Ofcom yn unol â’i ddull gweithredu mewn perthynas â chyhoeddiadau. Llongyfarchodd y Cadeirydd dîm Ofcom Cymru.<br>• Nodwyd bod Ofcom wedi ymateb i adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru ‘Y Sefyllfa sydd Ohoni: Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. |
| **12. Diweddariad – Aelod ar ran Cymru o’r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebiadau**<br><br>Roedd yr Aelod ar ran Cymru o’r Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebiadau wedi cyflwyno papur o’r blaen ac wedi tynnu sylw at y materion allweddol canlynol:<br><br>• Cwblhaodd Rick Hill ei gyfnod fel Cadeirydd ym mis Mai ac mae Helen Froud yn ei olynu. Ar hyn o bryd, mae’r Panel yn recriwtio ar gyfer tair swydd wag, sef Aelod Panel cyffredinol, Aelod ar ran Gogledd Iwerddon ac Aelod ar ran yr Alban.<br><br>• Dyma Flaenoriaethau’r Panel ar gyfer 2024/25:<br>- Fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebiadau a dyled defnyddwyr<br>- Symud i rwydweithiau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VOIP)<br>- Diffodd 2G/3G<br>- Dyfodol y Gwasanaeth Post Cyffredinol<br><br>Rhoddodd RB ragor o fanylion ynghylch yr hyn oedd y tu ôl i bob blaenoriaeth. |

| Eitemau ar yr Agenda |
| --- |
| Trafododd aelodau'r fantais o gael adroddiad annibynnol ar gyfer pob Gwlad a fyddai, yn eu barn nhw, yn fuddiol o ran tynnu sylw at faterion unigryw ym mhob gwlad. RB i fynd â'r awgrym ymlaen.<br><br>Tynnodd RB sylw at bryder y Panel ynghylch y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) cyfredol ar gyfer band eang. Roeddent yn teimlo nad oedd 10mbs yn ddigon i deulu cyffredin. Dywedodd EW fod nifer fawr o aelwydydd bellach wedi'u cysylltu â ffeibr llawn a chynigiodd ddosbarthu ystadegau cyfredol o'r Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd.<br><br>Roedd aelodau'n falch o nodi y byddai RB yn ymgysylltu â Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru. |
| **12. Diweddariad: Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys**<br><br>Yn ei habsenoldeb roedd yr Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys wedi darparu adroddiad diweddaru cyn y cyfarfod ac wedi nodi'r canlynol:<br><br>• Roedd wedi bod mewn cyfarfod ynglŷn â thrwyddedu Channel 4 gyda'r Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom a staff Ofcom lle cafwyd trafodaeth lawn ynghylch cwotâu C4 ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau. Estynnodd wahoddiad i'r Pwyllgor ymateb cyn gynted ag y byddai cofnodion y cyfarfod hwnnw ar gael ac awgrymodd fod y tîm yn dod i gyfarfod o'r PCC yn y dyfodol i roi diweddariad.<br>• Yn dilyn y cyfarfod ym mis Chwefror roedd hi hefyd yn annog PCC/Ofcom i ystyried yr awgrym ynghylch rhoi cynllun ymgysylltu a chyfathrebiadau ar waith er mwyn rhannu syniadau â rhanddeiliaid allweddol am Ddiogelwch Ar-lein.<br>• Cadarnhaodd CJ y bydd Ofcom yn ceisio canolbwyntio ar edrych tua'r dyfodol ar bynciau allweddol a sut byddant yn effeithio ar y gwahanol wledydd - a byddai'n annog sgwrs ragweithiol. Y nod fyddai rhoi rhybudd ymlaen llaw i PCC. |
| **13. Yr Ymgynghoriad ar Amddiffyn Plant**<br><br>Rhoddodd y tîm gyflwyniad manwl a throsolwg o'r ymgynghoriad presennol sy'n dod i ben ar 17 Gorffennaf. Rhoddodd Gwenno Thomas y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am yr ymgysylltu presennol â rhanddeiliaid yng Nghymru fel paratoi pecynnau ar gyfer ysgolion ac ati a threfnu gweithdai yn y dyfodol. Mae'r maes gwaith hwn bellach yn rhan o dîm Addysg a Chadernid Digidol Llywodraeth Cymru.<br><br>Cytunwyd y byddai 2/3 aelod yn cyfarfod i drafod yr ymgynghoriad ac i ystyried drafftio ymateb. Ofcom Cymru i drefnu galwad Teams yn yr wythnos yn dechrau 1 Gorffennaf. Yna, bydd y Cadeirydd yn coladu ymateb ysgrifenedig ar ran y Pwyllgor, os oes angen. |
| **14. Eitemau gwybodaeth** (wedi'u nodi)<br><br>Cytunodd yr aelodau bod cael data cwynion mewn cyfarfodydd yn ddefnyddiol a gofyn a oedd modd amlygu anghysondebau ar gyfer Cymru mewn rhyw ffordd. |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**<br><br>2 Hydref 2024, lleoliad i'w drefnu. |